Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 10fed o Ionawr 2018 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.15yh.

Presennol: Y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Owen James, y Cyng. Christoph Fischer, Roger Phillips (Clerc Tref)
Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Robert Jones.

Roedd Trawsnewid Llandeilo wedi derbyn gwahoddiad i annerch y Pwyllgor ar eu prosiect, i blannu coed ffrwythau ym Mharc Penlan. Roedd y Pwyllgor yn siomedig iawn na fynychodd y cynrychiolwyr, heb unrhyw ymddiheuriad o gwbl.

Cof 233 / Ion / 18 Datganiadau o Fuddiant

Datganodd y Cyng. Colin Jenkins fuddiant yng Nghais Cynllunio E/36422, fel cymydog yr eiddo ac arwyddodd y Llyfr Datganiadau o Fuddiant.

Cof 234/ Ion / 18 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/36563 I ailadeiladu wal mewn brics adferedig – o fath imperial; gyda chapiau cerrig a rheiliau haearn gyr.
Sylw: Siom nad oedd unrhyw fanylion yn ymddangos ar wefan CSG. Arweiniodd gwybodaeth leol at gofnodi ei fod wedi cael ei gymeradwyo, gydag un gwrthwynebiad. Mae'n rhaid cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer ardal gadwraeth.

Cof 235 / Ion / 18 Penderfyniadau am Geisiadau Cynllunio

E / 36352	27, Lôn Rhys	RHODDWYD
E / 36256	10, Heol Caerfyrddin	RHODDWYD
E / 36212	6, Heol Newydd	GWRTHODWYD
E / 36199	12, Heol Caerfyrddin	RHODDWYD

Cof 236 / Ion / 18 Materion Eraill yn ymwneud â Chynllunio

1. Ynglŷn â Chais Cynllunio E/36422. Ateb Ceri Davies, Swyddog Cynllunio, i bryderon y Cyngor am y gwaith a gwblhawyd, cyn y rhoddwyd caniatâd. Roedd y cais yn dal i gael ei ystyried. Gofynnwyd i'r Clerc i ofyn am:-
   i) Copi o adroddiad y Swyddog Cadwraeth
   ii) Ymholiad p'un ai bod yn rhaid darparu lle parcio, oherwydd bod y cais yn newid defnydd o swyddfa i lety preswyl.

2. Cais Mân Amrywiad, o ran cynllun mewnol siop y Co-operative. Doedd dim gwrthwynebiad.

3. Gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu at y Swyddog Gorfodi Cynllunio, mewn perthynas â'r caniatâd cynllunio a roddwyd i Home Farm, Parc Dinefwr, ar gyfer paneli solar. Nid oedd y cytundeb i blannu clawdd i guddio'r rhain rhag y ffyrdd cyfagos, wedi cael ei gwblhau.

Cof 237 / Ion / 18 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd Mr Davies wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y cyfarfod. Adroddodd Mr Davies bod llwybr troed Glynceirch (69/1) yn anhramwyadwy. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod pob un o'r Cynghorwyr yn cael eu gwahodd i fynd ar daith gerdded grŵp ar hyd llwybrau troed Llandeilo. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Lesley Prosser. Roedd pawb o blaid. Byddai'r mater yn cael ei osod ar agenda cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Chwefror.
Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod Hugh Gwynne yn cael contract, i fynd â'r defnyddiau sy'n weddill o islawr y Sefydliad i'r domen Gwastraff cyhoeddus, am bris o £85, a bod hyn yn cael ei argymell i'r Pwyllgor Cyllid. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 238 / Ion / 18 Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd

Roedd JACOBS, cwmni sy'n cynnal arolwg ar ran Llywodraeth Cymru ar wella cludiant yn Llandeilo, wedi gwahodd cynrychiolwyr o'r Cyngor i fynychu'r gweithdy cyntaf, a gynhelir yng Nghaerfyrddin ar yr 16eg o Ionawr, rhwng 9.30-12.30.
Byddai'r Cyng. Gordon Kilby a'r Cyng. Lesley Prosser yn mynychu ar ran y Cyngor.

Cof 239 / Ion /18 Gohebiaeth

1. CGGSG, ynglŷn â Gwirfoddoli Gwledig. Nodwyd.
2. Y Cyng. Gordon Kilby, ynglŷn â Grŵp Amgylchedd Tywi. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod Mr Simon Jones yn cael ei wahodd i annerch y Cyngor, ar lwybrau arfaethedig y Ffordd Osgoi, yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

Cof 240/ Ion / 18 Eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag Adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Cyhoeddodd y Cyng. Colin Jenkins ei fod wedi cael ei benodi'n Llywodraethwr AALl i Ysgol Teilo Sant.
Cyhoeddodd y Cyng. Gordon Kilby ei fod wedi cael ei benodi'n Llywodraethwr AALl i Ysgol Bro Dinefwr.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.56yh.